

HSE / HWW - Cytundeb Partneriaeth

1^{af} Mehefin 2019

Mae'r [Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch](#) (HSE) a [Chymru Iach ar Waith](#) (HWW) ill dau yn ceisio gwella iechyd, diogelwch a lles gweithwyr trwy weithgareddau i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rheolaethau angenrheidiol i atal salwch ac i ysgogi newidiadau ym mholisi cyflogwyr ac arferion i hyrwyddo iechyd da. Mae HSE yn rheoleiddiwr iechyd, diogelwch a lles Prydain Fawr ac mae'n archwilio ac yn ymchwilio i weithleoedd ledled Prydain. Mae HWW yn rhan o Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) ac mae'n cefnogi cyflogwyr i greu amgylcheddau a gweithgareddau gwaith sy'n hybu iechyd.

Bydd HSE a HWW yn cydweithio mewn partneriaeth i wella iechyd a lles gweithwyr gyda phwyslais arbennig ar fusnesau bach a chanolig (SME's) drwy:

- dysgu am fentrau newydd a phresennol yng Nghymru i gefnogi SME's i wella iechyd yn y gwaith a hyrwyddo lles
- rhannu dulliau a phrofiad mewn gweithleoedd SME's ar gyfer rheoli'r risg, a lleihau nifer yr achosion mawr o salwch galwedigaethol (e.e straen sy'n gysylltiedig â gwaith ac afiechyd meddwl a chyflyrau cyhyrsgerbydol)
- archwilio dulliau partneriaeth a rhwydweithio ar gyfer cyflwyno negeseuon iechyd a lles a hyrwyddo cyfleoedd i hyrwyddo iechyd i SME's yng Nghymru
- cydweithio i gynllunio gweithgareddau gwaith a helpu i osod blaenoriaethau
- cydweithio i wella gwybodaeth a chymhwysedd gweithwyr
- rhannu gwybodaeth (yn amodol ar brotocolau rhannu data priodol) a allai gynorthwyo ei gilydd i wella iechyd a lles gweithwyr
- cefnogi ei gilydd mewn digwyddiadau neu raglenni gwaith sy'n bodloni ein hamcanion priodol
- datblygu cyd-ddelweddau ar gyfer digwyddiadau ar y cyd neu wrth weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol eraill yng Nghymru


I gyflawni hyn, bydd HSE a HWW yn cyfarfod o bryd i'w gilydd ac yn gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru i gyflawni'r amcanion a nodir uchod.

Rhannu Gwybodaeth

Bydd HSE yn cydymffurfio â'i [Brotocol Rhannu Data](#) wrth ymdrin ag unrhyw wybodaeth a drosglwyddir iddo gan HWW. Bydd HWW yn cydymffurfio â'i bolisi Llywodraethu Gwybodaeth wrth ymdrin ag unrhyw wybodaeth a roddir iddo gan HSE.

Adolygiad

Bydd y 'Cytundeb' hwn yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn rolau neu ddeddfwriaeth.



Mary-Ann McKibben
Ymgynghorydd mewn Iechyd
Cyhoeddus yn Gweithio Iach
Cymru, PHW 1 Mehefin 2019



Sian Clayton
Pennaeth Gweithrediadau
Maes HSE (Cymru a'r
Gororau) 1 Mehefin 2019